

**CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (HEOL HOLLTWN, Y BARRI)
(GWAHARDD TROI I'R DDE) 2020**

Ar 30 Mehefin 2019, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2 a 92 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlen isod.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Gorffennaf 2020, neu ar y dyddiad y bydd yr arwyddion/marciau ffordd angenrheidiol yn eu lle, pa un bynnag yw'r hwyraf a chaiff ei alw'r Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Heol Holltwn, y Barri) (Gwahardd Troi i'r Dde) 2020.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk

Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 6 Gorffanef 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

ATODLEN

**Gorchymyn Newydd
Gwahardd Troi i'r Dde
Heol Holltwn, y Barri**

Ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd Cwnstabl Heddlu mewn iwnifform neu Warden Traffig, beri na chaniatáu i gerbyd fynd i'r de-orllewin ar hyd Heol Holltwn er mwyn gwneud tro i'r dde i Buttrills Road, y Barri.

Dyddiad: 2 Gorffanef 2020
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô, CF5 6AA.